# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 1

RHEOLI TIR YN GYNALIADWY

*Monitro ac adrodd*

### 6 Adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o dan yr adran hon, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, yn nodi eu hasesiad o—

- (a) y cynnydd cronnus a wnaed, ers i adran 2 ddod i rym, tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt, a
- (b) y cynnydd a wnaed, yn ystod y cyfnod adrodd, tuag at gyflawni'r amcanion hynny drwy arfer y swyddogaethau hynny.

(2) Rhaid i'r adroddiad nodi, mewn perthynas â phob dangosydd yn y datganiad (neu'r datganiad diwygiedig) a gyhoeddir o dan adran 4—

- (a) y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r dangosydd hwnnw yn ystod y cyfnod adrodd, a
- (b) sut y mae hynny wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

(3) Rhaid i'r adroddiad hefyd bennu, mewn perthynas â phob targed yn y datganiad (neu'r datganiad diwygiedig), pa un a yw'r targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd ai peidio.

(4) Os yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd, rhaid i'r adroddiad egluro sut y mae hynny wedi cyfrannu at gyflawni un neu ragor o'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

(5) Os nad yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd, rhaid i'r adroddiad—

- (a) egluro pam, a

(b) nodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd—

(i) er mwyn cyflawni'r targed, neu

(ii) er mwyn gosod targed priodol newydd.

(6) Os nad yw Gweinidogion Cymru hyd yma wedi gallu penderfynu pa un a yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd ai peidio, rhaid i'r adroddiad—

(a) egluro pam, a

(b) nodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, er mwyn penderfynu pa un a yw'r targed wedi ei gyflawni ai peidio.

(7) Caiff yr adroddiad hefyd asesu ac adrodd ar—

(a) unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol wrth asesu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy;

(b) y blaenoriaethau allweddol, y risgiau allweddol a'r cyfleoedd allweddol mewn perthynas â chyflawni'r amcanion hynny;

(c) yr effaith y mae'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ei chael ar gyflawni nodau ac amcanion eraill.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd—

(a) cyhoeddi'r adroddiad sy'n ymwneud â'r cyfnod adrodd, a

(b) ei osod gerbron Senedd Cymru.

(9) Yn yr adran hon, ystyr y "cyfnod adrodd" yw—

(a) yn achos yr adroddiad cyntaf, y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 2 yn dod i rym ac sy'n dod i ben â 31 Rhagfyr 2025;

(b) yn achos adroddiadau dilynol, cyfnodau olynol o bum mlynedd.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (9) drwy reoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 mewn grym ar 17.10.2023, gweler **a. 56(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 6.